Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Department for Economy, Science and Transport

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref ATISN 9855

Gareth Clubb

gareth.clubb@foe.co.uk

11 Rhagfyr, 2015

Annwyl Mr Clubb

Cwyn mewn perthynas ag ATISN 9855

Ysgrifennais atoch ar 18 Tachwedd mewn ymateb i'ch cwyn ar e-bost a welais ar 16 Tachwedd. Rwyf wedi cynnal adolygiad mewnol yn unol â'r weithdrefn a amlinellir yng nghanllaw ymarferol Llywodraeth Cymru ar wneud ceisiadau am wybodaeth. Mae'r canllaw ar gael drwy'r post ar gais neu ar y rhyngrwyd.

Nodaf mewn ymateb i'ch cais am gostau'r arddangosfeydd a gynhaliwyd ym mis Medi i hyrwyddo ein gwaith ar yr M4, fesul categori, y dywedwyd wrthych nad oedd gennym yr wybodaeth hon am fod costau'r arddangosfeydd gwybodaeth i'r cyhoedd yn rhan o gostau gwaith datblygu cyffredinol y prosiect. Cynhaliwyd y gwaith hwnnw gan y contractwyr a benodir ac nid yw'r costau wedi'u rhannu'n ôl gweithgareddau unigol.

Yn eich e-bost ar 15 Tachwedd, dywedoch eich bod yn ei chael yn anodd credu nad oedd modd inni ddarganfod cost yr arddangosfeydd gan fod y contractwr yn gweithio ar ein rhan.

Rwyf wedi adolygu'r mater a gallaf gadarnhau bod y costau fel a ganlyn:

Costau staff - £175,259
Llogi lleoliadau - £3,952
Hysbysebion cyhoeddus - £26,831
Cyfieithu - £1,160
Deunyddiau arddangos a logisteg statig ac ar-lein - £82,325

I gloi, rwy'n derbyn eich cwyn a hyderaf fod yr ymateb hwn bellach yn ateb eich cais gwreiddiol.

Os nad ydych yn fodlon â'r ymateb uchod i'ch cais Rhyddid Gwybodaeth, mae gennych yr hawl i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r

Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad hwn: Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire SK9 5AF.

Yn gywir

Simon Jones
Cyfarwyddwr - Trafnidiaeth